

394 - Cystadleuaeth Cywaith Blwyddyn 6 ac iau (D) - Ffrindiau

Beirniad – Sian Vaughan

Gwobr 1af – Criw Comins

Un cywaith yn unig a dderbyniwyd ar gyfer y gystadleuaeth hon.

Er y siom nad oedd rhagor wedi manteisio ar y cyfle i gystadlu, treuliais bnawn difyr yn darllen drwy gywaith **Criw Comins**. Diolch yn fawr iddynt am eu gwaith safonol ac i'r athrawon a roddodd y cyfle iddynt ymgeisio.

Roedd y cywaith hwn yn frith o weithgareddau trawsgwricwlaidd amrywiol a diddorol, wedi eu sbarduno gan nifer o symbyliadau difyr.

Roedd Siart Lif ar ddechrau'r cywaith yn dangos map meddwl y criw wrth iddynt fynd ati i ymateb i'r testun. Wedi edrych drwy'r mapiau meddwl roedd arwydd clir y byddai'r cywaith yn cynnwys amrediad eang o ffurfiau a gweithgareddau trawsgwricwlaidd cyffrous.

Roedd hynny'n wir. Gwelwyd ystod o batrymau iaith ac ansoddeiriau pwerus yn cael eu defnyddio'n naturiol mewn gweithgareddau hynod ddiddorol ac amrywiol. Bu'r criw yn disgrifio eu ffrindiau mewn portreadau manwl a ryseitiau ysgrifenedig, yn dehongli drwy waith celf, ac yn llunio cerddi a gêmau cyfathrebol hwyliog.

Cafwyd tasgau casglu a dehongli data yn amrywio o gasglu gwybodaeth am ddiddordebau i ddatrys problemau rhifyddol yn y sinema. Hefyd, roedd gwaith map ar lein ble roeddynt yn mesur pellter cartrefi ffrindiau. Cyflwynwyd y wybodaeth mewn tablau, graffiau ac adroddiadau dadansoddol oedd yn gwneud defnydd da o eirfa a phatrymau brawddegol yn drawsgwricwlaidd.

Roedd y defnydd helaeth a wnaethpwyd o dechnoleg yn cyfoethogi'r cywaith cyfan gyda sgyrsiau llafar sgriptiau a chyflwyniadau yn cael eu llunio a'u cyflwyno drwy amrywiol gyfryngau digidol.

Diolch am waith cynhwysfawr a graenus sy'n llwyr haeddu'r wobr gyntaf.